



# Arian a fi Geirfa



|                               |  |
|-------------------------------|--|
| Ad-daliadau                   | Talu yn ôl benthyciad, neu ran o fenthyciad.   |
| Addewid i dalu                | Cytundeb i dalu benthyciwr swm penodol o arian. Mae addewid i dalu ar ein <b>harian papur</b> .  |
| Adnau                         | 1) Swm o arian sydd yn cael ei rhoi mewn banc<br>2) Swm llai o arian sydd yn cael ei dalu i brynu rhywbeth gyda'r gweddi yn cael ei dalu yn hwyrach neu dros gyfnod o amser.   |
| Ail-fuddsoddi                 | Rhoi elw o fuddsoddiad blaenorol i mewn i'r un prosiect neu un gwahanol.   |
| Ailgylchadwy                  | Gwrthrych sydd yn gallu cael ei ail-gylchu neu ei ail-ddefnyddio fel rhywbeth arall.   |
| Arbrisiant                    | Arbrisiant yw cynnydd mewn gwerth ased.  |
| Argraffiad copog              | Nodwedd diogelwch ar ein harian papur. Mae'r geiriau 'Bank of England' wedi ei hysgrifennu yn defnyddio argraffiad copog ar ben pob nodyn. Mae gwerth y nodyn hefyd wedi ei ysgrifennu mewn breil yng nghornel chwith uchaf y nodyn. |
| Arian Cyfredol                | Rhywbeth y gallwn ei gyfnewid am nwyddau a gwasanaethau. Arian papur a darnau arian adnabyddus yw ein harian cyfredol ni.  |
| Arian Papur                   | Uned o <b>arian cyfredol</b> sydd yn addo talu swm o arian i rywun.  |
| Aсед                          | Eiddo person sydd â gwerth ariannol.   |
| Banc                          | Lle sydd yn gwarchod a benthyg arian ac yn rhoi cymorth i bobol dalu am bethau.  |
| Banc Lloegr / Bank of England | Y sefydliad yn y DU sy'n gyfrifol am gadw prisiau'n isel a sefydlog, a sicrhau bod banciau'n llafydd diogel i'ch arian.  |
| Benthyciad                    | Menthyg arian, fel arfer gan fanc.   |
| Benthyciad i fyfyrwyr         | Math o fenthyciad sydd wedi'i gynllunio fel cymorth i fyfyrwyr dalu am addysg uwch a ffioedd eraill, fel ffioedd dysgu, llyfrau a chyflenwadau, a chostau byw.   |
| Benthyciad tymor byr          | Benthyciadau sydd yn cael eu talu i ffwrdd mewn amser byr, yn aml gyda chyfraddau llog uchel.  |
| Benthyciwr                    | Rhywun sydd yn benthyg arian.  |
| Buddsoddi                     | Defnyddio arian i brynu rhywbeth, sydd efallai am gynyddu mewn gwerth dros amser a gwneud <b>elw</b> (mwy o arian).  |





# Arian a fi Geirfa

|                         |  |
|-------------------------|--|
| Busnes                  | Sefydliad sydd yn darparu <b>nwyddau</b> neu <b>wasanaethau</b> i'r cyhoedd neu fusnesau eraill gyda'r amcan o wneud elw ar y gweithgareddau.  |
| Cam-werthu              | I werthu rhywbeth i rywun drwy roi cyngor camarweiniol neu <i>anonest</i> .  |
| Carbon Deuocsid (CO2)   | Nwy sydd yn cael ei greu drwy losgi tanwyddau sydd yn cyfrannu i <b>gynhesu byd-eang</b> a newid hinsawdd.                                     |
| Chwyddiant              | Pan fo cynnydd parhaus dros amser ym mhris <b>nwyddau</b> a <b>gwasanaethau</b> (pethau rydym yn defnyddio a phrynu).                          |
| Cofleidio               | Derbyn rhywbeth gyda brwdfrydedd.  |
| Cyflenwad               | <b>Nwyddau</b> a <b>gwasanaethau</b> mae cynhyrchwyr yn gallu, neu yn fodlon gwerthu am bris penodol.  |
| Cyflog                  | Arian sydd yn cael ei dalu i un a gyflogir i weithio.  |
| Cyfnewid                | Pan mae pobol yn cyfnewid <b>nwyddau</b> neu <b>wasanaethau</b> heb ddefnyddio <b>arian cyfredol</b> .   |
| Cyfnewid                | Rhoi un peth a derbyn rhywbeth arall o werth tebyg, gan gynnwys cyfnewid arian am nwyddau a gwasanaethau.                                      |
| Cyfnod y benthyciad     | Cyfnod o amser sydd gennych i ad-dalu eich <b>benthyciad</b> .   |
| Cyfraddau llog          | Mae <b>llog</b> yn cael ei gyfrifo mewn canrannau. Er enghraifft, buasai llog £1000 gyda chyfradd llog o 5% yn ysgwyddo llog o £50 y flwyddyn. |
| Cyfrif cynilion         | Cyfrif banc sylfaenol i gadw arian yn ddiogel, gyda'r gallu i dynnu peth allan, wrth ennill llog arno.   |
| Cyfrif cynilo plant iau | Cyfrif banc ar gyfer plant a phlant yn ei harddegau.   |
| Cyfrifoldeb             | Cael dyletswydd i edrych ar ôl, neu reoli rhywbeth neu rywun.  |
| Cyllidebu               | Pan rydym yn mesur ein <b>hincwm</b> (arian yn dod i mewn) yn erbyn <b>gwariant</b> (arian yn mynd allan).                                     |
| Cynhesu byd-eang        | Cynnydd araf yn nhymeredd atmosffer y ddaear.  |
| Cynilo                  | Y weithred o roi arian o'r neilltu i'w ddefnyddio yn y dyfodol.  |
| Cynnyrch                | Rhywbeth sydd wedi ei wneud.   |
| Delwedd fetelig         | Delwedd fanwl iawn sydd yn nodwedd diogelwch ar <b>arian papur</b> .   |
| Derbynneb               | Tystiolaeth fod arian wedi ei gyfnewid am <b>wasanaethau</b> neu <b>nwyddau</b> .  |



# Arian a fi Geirfa



|  |   |
|--|---|
| Deunydd pacio  | Deunyddiau ar gyfer lapio ac amddiffyn <b>nwyddau</b> wrth eu cludo.  |
| Dull talu  | Gwahanol ffyrdd o dalu am rhywbeth. Er enghraifft gallwn ddefnyddio <b>arian papur</b> fel dull talu.   |
| Dyled  | Arian sydd yn ddyledus- a disgwylir ei dalu yn ôl - gan unigolyn, busnes neu wlad. Dyled yw'r enw a roddir ar fenthyg arian.                        |
| Dyled nod  | Cytundeb anffurfiol sy'n cofnodi swm dyledus o arian.   |
| Ecsbloetio   | Y weithred neu ffaith o drin rhywun yn annheg er mwyn elw o'u gwaith.   |
| Elw  | Cyfanswm o arian sydd yn weddill unwaith mae'r costau a threuliau i gyd wedi ei didynnu o'r arian rydych wedi ei ennill.                            |
| Ffeirio  | Pan mae pobol yn ffeirio <b>nwyddau</b> neu <b>wasanaethau</b> heb ddefnyddio <b>arian cyfredol</b> .   |
| Ffug   | Twyllo drwy efelychu neu gopïo. Mae arian ffug yn efelychiad o arian papur go iawn.   |
| Galw   | Y nifer o nwyddau neu wasanaethau mae pobl eisiau ac yn gallu eu prynu.   |
| Goblygiadau  | Canlyniad gweithred sydd yn gallu bod yn dda neu ddrwg.   |
| Gwariant   | Arian yn mynd allan - dyma'r arian rwynt yn ei wario.   |
| Gwario moesegol  | Dewis prynu nwyddau sydd yn achosi'r niwed lleiaf i'r amgylchedd, pobol eraill neu anifeiliaid drwy'r ffyrdd y gwnaethpwyd, defnyddiwyd a chludwyd. |
| Gwasanaethau   | Gweithredoedd mae rhywun arall yn ei wneud am dâl, fel talu am bryd o fwyd mewn bwyty neu dorri gwallt.   |
| Gwefannau taliadau, cysylltiadau rhyngryd a thudalennau gwefannau diogel | Systemau ar-lein sydd wedi eu cynllunio i wneud taliadau yn ddiogel ac amddiffyn cwsmeriaid rhag hacio a thwyll.                                    |
| Gwerth pres  | Y syniad fod rhywbeth yn werth yr arian rydych wedi talu amdano.  |
| Gwe-rwydo  | Dyma sut mae troseddwr yn defnyddio e-byst i dwyllo pobol i roi gwybodaeth sensitif i ffwrdd, er enghraifft, enwau defnyddwyr neu gyfrinair.        |
| Hanfodol   | Rhywbeth angenrheidiol na ellir gwneud hebdo.   |





# Arian a fi Geirfa



Hologram

Nodwedd diogelwch ar ein **harian papur**. Mae'r ddelwedd yn newid wrth symud arwyneb sydd hefo'r llun arno, neu os wyt ti yn symud.

Hysbysebion naid

Math o hysbysebu ar y we a ddefnyddir gan hysbysebwr i ddenu sylw defnyddwyr y we.

Incwm

Arian rwyd ti yn ei dderbyn drwy bethau fel arian poced, tasgau o gwmpas y cartref, neu dâl o swydd.

Llog

Arian ychwanegol sydd yn cael ei ychwanegu i'r cyfanswm o arian rwyd wedi benthg neu mae'n cael ei ychwanegu i'r swm o arian rwyd wedi ei gynilo.

Masnach Dêg

Masnach rhwng cwmnïau mewn gwledydd datblygedig a chynhyrchwyr mewn gwledydd sydd yn datblygu lle mae prisiau teg yn cael eu talu i'r cynhyrchwyr. Y gweithgaredd 'Masnach Deg' yma sydd yn arwain i amodau gwaith gwell i'r rhai mewn gwledydd sydd yn datblygu.

Masnachwr

Rhywun sydd yn gwerthu **nwyddau a gwasanaethau**.

Menter

Creu busnes neu brosiect gyda'r pwrpas o dyfu eich arian drwy eich syniad a/neu waith caled.

Menthg

Cymryd a defnyddio arian dros dro, gyda'r bwriad o'i ddychwelyd

Milltiroedd bwyd

Y pellter mae bwyd wedi teithio, o'r lle y gwnaethpwyd i'r man gwerthu.

Moethus

Gwasanaeth neu eitem sydd ddim yn angenrheidiol ond yn ddymunol.

Morgais

**Benthciad** banc dros gyfnod hir o amser sydd yn galluogi **benthciwr** i brynu tŷ.

Nodwedd uwch-fioled

Nodwedd diogelwch ar ein harian papur. Os yw siopwr yn rhoi arian papur mewn boc arbennig, mae golau arbennig - uwch fioled- mae rhif amryliw i'w weld (5 ar bapur £5, 10 ar bapur £10 ayyb)

Nwyddau

Cynnyrch gallwch afael ynddo, fel bwyd, dillad neu ffonau symudol.

Nwyon tŷ gwyr

Nwyon sydd yn cyfrannu at **gynhesu byd-eang**.

Organig

Cynnyrch bwyd sydd yn cael ei dyfu heb ddefnyddio gwrteithwyr cemegol a phlaladdwyr.

Osgoi

Cadw draw o rywbeth.

Polymer

Mae polymer yn blastig hyblyg tenau sydd yn cael ei ddefnyddio i wneud arian papur yn y DU. Mae'n gryfach, glanach ac yn fwy diogel na phapur ac





# Arian a fi Geirfa



|                          |   |
|--------------------------|---|
|                          | mae mwy o nodweddion diogelwch yn gallu cael eu cynnwys wrth ei ddefnyddio.   |
| Portread                 | Darlun o berson. Mae gan ein <b>harian papur</b> ffenest glir fawr gyda llun o'r frenhines arno.  |
| Pris                     | Mesur o werth rhywbeth, faint o arian sydd ei angen i brynu rhywbeth.   |
| Sefydlog                 | Aros yr un fath neu ddim yn newid.  |
| Sgam                     | Cynllwyn anonest neu dwyll gyda'r bwriad o dwyllo person i roi ei harian i ffwrdd. Gall sgamiau ddigwydd ar lein ar oddi ar-lein.   |
| Sgam Ariannol            | Pan mae rhywun yn dy dwyllo yn fwriadol; i roi arian iddynt, neu brynu rhywbeth sydd â gwerth gwael.  |
| Siopa ar-lein            | Prynu nwyddau a gwasanaethau dros y we yn hytrach na mynd dy hun.   |
| Twyll                    | Twyllo rhywun er mwyn cael enillion ariannol.   |
| Twyll Rhoddion Elusennol | Pan fo twyllwyr yn ecsbloetio caredigrwydd rhoddwyr i roi arian i elusennau ffug. Os ydych yn rhoi arian i elusen ffug, bydd y twyllwyr yn gallu ail-ddefnyddio eich manylion banc.               |
| Twyll siopa ar-lein      | Pan fo dioddefwr methu cyfnewid na chael ad-daliad ar ôl prynu rhywbeth diffygiol ar wefan siopa ar lein. Neu, gall yr arwerthwr fod yn ddiodesfwr sydd byth yn cael ei dalu am eitem a werthwyd. |
| Wynebwerth               | Gwerth sydd yn cael ei arddangos ar ddarn arian neu arian papur.  |
| Y flwyddyn               | Dyma faint o arian neu log fydd angen ei dalu pob blwyddyn ar <b>fenthyciad</b> neu <b>forgais</b> .  |
| Ymddiried                | Teimlo fod rhywbeth neu rywun yn ddibynadwy neu eirwir. Mae hyn yn bwysig iawn wrth ymddiried mewn rhywun i edrych ar ôl eich arian.  |
| Yswiriant                | Pan fo unigolyn neu fusnes yn talu cwmni i ddarparu iawndal am golled neu niwed os oes angen.   |

